

Gwybodaeth i gleifion

Descemet Membrane Endothelial Keratoplasty (DMEK)

Uned y Llygaid



Beth yw DMEK?

Mae **Descemet Membrane Endothelial Keratoplasty (DMEK)** yn drawsblaniad y gornbilen lle caiff dim ond haen fewnol y gornbilen – sef y **pilen Descemet ac endotheliwm** – ei gyfnewid am feinwe iach gan roddwr.

Mae'n "**drawsblaniad dethol, rhannol**" sy'n cynnig adferiad cynt a chanlyniadau golwg gwell na dulliau hŷn.

Pam mae angen DMEK?

Defnyddir **DMEK** i drin cyflyrau lle mae haen endothelaidd y gornbilen wedi'i niweidio, fel:

1. Dystroffi Endothelaidd Fuch's (FED)
2. Ceratopathi Pothellog (Bullous Keratopathy)
3. Methiant endothelaidd ar ôl llawdriniaeth (e.e. cataract)
4. Oedema'r gornbilen oherwydd cyflyrau eraill.

Sut mae'r driniaeth yn cael ei gwneud?

- Bydd y driniaeth yn digwydd o dan anesthetig lleol (byddwch yn effro ond ni fyddwch yn teimlo unrhyw boen)
- Bydd y llawfeddyg yn tynnu haen fewnol eich cornbilen sydd wedi'i difrodi
- Bydd grafftiaid tenau o feinwe endothelial (fydd yn ddim mwy na tua 10-15 micron o drwch) a gafwyd gan roddwr yn cael ei osod yn eich llygad
- Defnyddir swigen aer i ddal y grafftiaid yn ei le nes iddo lynu'n naturiol.

Manteision DMEK:

1. Canlyniadau golwg gwell (golwg sy'n agosach at olwg arferol).
2. Adferiad cynt na thechnegau hŷn fel DSAEK neu PKP.
3. Risg is o wrthodiad.
4. Toriad llai a llai o darfu ar feinwe.

Risgiau a chymhlethdodau posibl:

Er bod DMEK yn ddiogel ac yn effeithiol ar y cyfan, mae risgiau'n cynnwys:

- Y grafftiad yn symud o'i le (efallai bydd angen triniaeth fach ar gyfer gosod swigen aer newydd)
- Pwysau uwch yn y llygad
- Haint
- Y grafftiad yn methu (prin)
- Golwg heb ei hadfer yn llawn (efallai y bydd angen sbectol neu driniaeth arall).

Beth i'w ddisgwyl ar ôl y llawdriniaeth:

1. Rhaid i chi orwedd ar wastad eich cefn am nifer o oriau (e.e. o leiaf 4 awr) i gadw'r swigen aer yn ei lle.
2. Bydd eich golwg yn aneglur am y dyddiau cyntaf, ac yna'n gwella'n raddol.
3. Byddwch yn defnyddio diferion llygaid steroid a gwrthfotig.
4. Rhaid i chi fynychu apwyntiadau dilynol rheolaidd i fonitro cyflwr y grafftiad

Cyfarwyddiadau ar gyfer Gofal Ôl-lawdriniaethol:

1. Defnyddiwch ddiferion llygaid yn union fel y'i rhagnodwyd
2. Ceisiwch osgoi nofio, amgylcheddau lle mae llwch, a chodi gwrthrychau trwm.
3. Ceisiwch osgoi hedfan yn ystod y 10 diwrnod cyntaf tra bod y swigen aer yn dal i fod yn y llygad.
4. Gwisgwch orchudd amddiffynnol tra'n cysgu am 1-2 wythnos.
5. Cysylltwch â thîm y Clinig Llygaid Brys ar unwaith os byddwch yn sylwi ar: ddirywiad sydyn yn eich golwg, poen, cochni neu sensitifrwydd i olau, gweld smotiau duon neu fflachiadau o olau.

Amserlen Adfer:

Amser	Beth i'w Ddisgwyl
Diwrnodau 1-3	Y golwg yn aneglur, swigen yn y llygad, gorffwys
1-2 wythnos	Gwelliant graddol yn y golwg; gallwch ailddechrau gwneud gweithgaredd ysgafn
1-3 mis	Y golwg yn gliriach; y rhan fwyaf o'r broses wella wedi'i chwblhau
Parhad	Archwiliadau rheolaidd a defnyddio diferion llygaid.

Cwestiynau Cyffredin:

C: A fydd angen sbectol arnaf ar ôl y llawdriniaeth?

A: Efallai, yn enwedig ar gyfer darllen neu gywiro astigmatedd.

C: Beth os fydd y grafftiad yn datgysylltu?

A: Yn aml gellir ei ail-gysylltu drwy driniaeth syml i ail gyflwyno swigen

C: A yw DMEK yn well na thrawsblaniadau cornbilen eraill?

A: Ar gyfer clefydau'r endotheliwm, mae DMEK yn cynnig y canlyniadau gweledol gorau a'r broses wella gyflymaf.

Cysylltwch â ni:

Rhif ffôn EEC: 01633 – 238856 yn ystod dyddiau/oriau gwaith

Penwythnos/Tu allan i Oriau Gwaith: Tîm Offthalmoleg ar Ddyletswydd, drwy rif y switsfwrdd: **01633- 234234**

E-bost (dim ond os oes angen cyngor):

EmergencyEyeClinic.abb@wales.nhs.uk

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English”**